**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion o Gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 9fed o Fai 2011 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2yp.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cynghorydd S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd P Jeffares | Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam |
| Cynghorydd J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Everett (Clerc); K Finch (Trysorydd); P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Teal-Bromley (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

ARSYLLWR:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd E C George | Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd T Evans | Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam |
| Cynghorydd G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| C Hanks | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| L Roberts | Rheolwr yr Ystafell Rheoli |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Doedd dim eitemau brys wedi cael eu cyflwyno i'r Cadeirydd na'r Clerc am ystyriaeth.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

2.1 Dim.

3 COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7FED CHWEFROR 2011

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Chwefror fel cofnod cywir.

4 MATERION YN CODI

4.1 O dan faterion yn codi, hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau am ddau ddigwyddiad difrifol yn Llandudno a Wrecsam. Roedd y trigolyn benywaidd yn yr adeilad yn Llandudno wedi dioddef llosgiadau difrifol ac roedd trigolyn gwrywaidd wedi marw mewn adeilad yn Wrecsam. Roedd ymgyrchoedd dwys wedi digwydd yn dilyn y ddau ddigwyddiad.

4.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau. Roedd aelodau'n cydnabod y materion a godwyd ac yn gefnogol o waith parhaol y Gwasanaeth wrth geisio atal y fath ddigwyddiadau. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am weithio mewn partneriaeth, anogwyd Aelodau i hyrwyddo gwaith partneriaeth gyda'u hawdurdodau cyfansoddol eu hunain gymaint ag sy'n bosib.

4.3 Gofynnodd yr Is-gadeirydd os fyddai'n ddefnyddiol sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar ffyrdd o wneud y gorau o'r protocolau rhannu data arwyddwyd gan awdurdodau. Cytunwyd y gellir trafod hyn yng ngrŵp gorchwyl y Cynllun Lleihau Risg fydd yn cael ei ail ymgynnull yr haf yma.

4.4 Gwnaeth y Clerc sylw fod y Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi mynychu cyfarfod o Broffil Cymunedol a Gorolwg Partneriaeth a Phwyllgor Archwilio Sir y Fflint; roedd wedi bod yn gyfarfod da ac yn ffordd effeithiol o godi proffil y Gwasanaeth a materion gweithredol oedd wedi rhoi digon i'r cynrychiolwyr gnoi cil drosto.

4.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac nad oedd unrhyw faterion eraill yn codi.**

5 ETHOLIADAU'R CYNULLIAD

5.1 Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau y byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Aelodau Cynulliad newydd yn cynnig briff iddynt ar waith Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dilyn etholiadau'r Cynulliad.

6 DIWEDDARIAD TANAU EITHIN

6.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad i'r Aelodau am y llifeiriant diweddar o danau eithin. Cafwyd digwyddiadau arwyddocaol yn y Bala a Phorthmadog. Bydd y swm o adnoddau a ddefnyddiwyd yn cael effaith ar y gyllideb, yn enwedig y gyllideb gyflog, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Gorffennaf.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 MONITRO PERFFORMIAD

7.1 Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad ar y ffigyrau perfformiad dros dro ar gyfer 2010-11. Arweiniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr Aelodau trwy'r ffigyrau a phwysleisio'r canlynol:

7.2 Roedd y Gwasanaeth wedi mynychu 3,288 o ddigwyddiadau oedd yn gysylltiedig gyda thân yn ystod 2010-11 o gymharu gyda 3,370 yn 2009-10.

7.3 Roedd y nifer o danau eilradd yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd y cynnydd mawr mewn tanau glaswellt ym mis Ebrill 2010; roedd y ffigwr wedi gostwng yn sylweddol ers hynny, ond wedi cael effaith gyffredinol ar y ffigyrau blynyddol. O'r 229 o danau mewn adeiladau annomestig, roedd 20% yn rhai bwriadol.

7.4 Roedd y Gwasanaeth a'i bartneriaid wedi gwneud cyfanswm o 36,905 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref o gymharu â 32,802 yn 2009-10.

7.5 Cafwyd gostyngiad arwyddocaol yn y nifer o danau a fynychwyd mewn adeiladau heb larwm mwg. Ar adeg Adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn 2006, dim ond rhyw 40% o'r adeiladau aed iddynt oedd â larymau mwg, o gymharu gyda 62% o'r adeiladau yn 2010-11. Ystyriwyd hyn i fod yn llwyddiant go iawn i'r Awdurdod.

7.6 Roedd 10 marwolaeth wedi digwydd oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, o gymharu gyda chwech yn y flwyddyn cynt. Nodwyd fod tri o'r 10 farwolaeth yn gysylltiedig gydag un digwyddiad. Hysbysodd y Prif Swyddog Tân ei fod ef a'i gymheiriaid yng Nghanol a Gorllewin a De Cymru yn bryderus am y nifer uchel o farwolaethau tân roedd y Gwasanaethau'n eu profi. Efallai fod y pwynt wedi ei gyrraedd lle nad oedd gwaith atal ac ymyraethau yn cael effaith arwyddocaol ar ostwng y nifer o anffodusion oherwydd tân, fodd bynnag, roedd y gwaith yma'n atal cynnydd yn y rhifau yma.

7.7 Roedd y Gwasanaeth wedi mynychu 616 (o gymharu gyda 767 yn 2009-10) o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (dim tân o gwbl) a 738 o wasanaethau arbennig eraill (dim tân o gwbl), tri yn fwy na 2009-10. O ystyried y gwasanaethau arbennig, chwarter 3 oedd y cyfnod prysuraf dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

7.8 Hysbyswyd yr Aelodau'n flaenorol o'r newid yn y system gofnodi ar gyfer galwadau larymau ffug ac mae'n debygol mai'r newid hwn oedd y rheswm am y cynnydd yn y nifer o alwadau ffug didwyll. Roedd y Gwasanaeth wedi mynychu 30 yn llai o alwadau ffug ar y cyfan a 22 yn llai o alwadau ffug maleisus.

7.9 Talodd y Gwasanaeth gyfanswm o 10,055 o anfonebau yn ystod 2010-11 ac roedd 94% o'r rhain yn cael eu talu o fewn 30 diwrnod.

7.10 **PENDERFYNWYD nodi'r ffigyrau dros dro a'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 AWDURDODAU TÂN AC ACHUB – DANGOSYDDION PERFFORMIAD

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gynghori Aelodau o'r dangosyddion perfformiad (DP) fyddai awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn cael eu mesur yn eu herbyn o 2011-12 ymlaen. Daeth Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011 i rym ar Ebrill 1af 2011, ac mae'n nodi'r Dangosyddion Perfformiad fydd perfformiad yr ATA yn cael eu mesur yn eu herbyn o 2011-12 ymlaen.

8.2 Roedd y Fframwaith Dangosyddion Perfformiad newydd yn rhestru'n dangosyddion statudol ac yn cefnogi ac yn argymell ardaloedd i ddatblygu dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer 2011-12 ymlaen. Roedd LICC wedi cydnabod y dylid monitro a mesur perfformiad mewn rhaid ardaloedd polisi, ond fod ymagweddau lleol gwahanol yn golygu nad oedd dangosydd cenedlaethol yn briodol. Felly, roedd LICC wedi nodi ardaloedd lle'r oedd yn disgwyl i bob ATA fabwysiadu'r DP lleol.

8.3 Croesawodd yr Is-gadeirydd y ffaith fod y Cynulliad yn cydnabod fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflwyno gwasanaeth tân mewn ardal wledig ac ei bod ni'n anodd cymharu'r holl ddangosyddion perfformiad ar draws Cymru. Fod bynnag, roedd o'r farn y dylai rhai o'r dangosyddion lleol gael eu mesur ar sail genedlaethol. Roedd y Cynghorydd T Roberts yn rhannu'r farn hon.

8.4 Cadarnhawyd y gallai'r tri Awdurdod Tan ac Achub benderfynu ar yr un dangosyddion perfformiad lleol os ystyriwyd fod hyn yn addas. Teimlai'r Prif Swyddog Tân fod y Gorchymyn yn dangos llwyddiant y trafodaethau rhwng y swyddogion o'r tri Awdurdod a bod y dangosyddion lleol yn rhoi elfen o reolaeth i'r Awdurdod ar sut mae perfformiad yn cael ei fesur.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r trefniadau am fesur perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.**

9 AMSERU CYNLLUN GWELLA/LLEIHAU RISG YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2012-13

9.1 Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r gofynion amseru ar gyfer cynhyrchu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol ar gyfer 2012-13, a chynnig amserlen i sicrhau cydymffurfiaeth.

9.2 Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y Cynulliad wedi bwriadu newid amseru'r cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynllun Cyfunol yr Awdurdod er mwyn iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth yn hytrach na mis Hydref. Fodd bynnag, derbyniwyd cadarnhad gan swyddogion LICC ar 31 Mawrth 2011 nad oeddynt wedi gallu sicrhau'r caniatâd angenrheidiol i wneud y newidiadau, ac felly, byddai'r dyddiadau cau presennol yn parhau.

9.3 Felly, mae angen cyhoeddi Cynllun Gwella/Lleihau Risg Cyfunol 2012-13 nesaf yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2011, gydag ymgynghoriad o 12 wythnos o flaenllaw. Er mwyn cyflawni'r dyddiau cau, bydd yr ymgynghoriad ar amcanion y flwyddyn nesaf yn cychwyn ar ddiwrnod cyfarfod yr Awdurdod

Tân (20 Mehefin 2011) ac yn dod i ben ar 9 Medi. Bydd y Panel Gweithredol yn ystyried Cynllun Cyfunol drafft ar ôl derbyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Medi, ac yn cyflwyno drafft terfynol y Cynllun Cyfunol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 17 Hydref 2011.

9.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cyhoeddiad annisgwyl gan swyddogion LlCC fod y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddiad 2011 yn parhau ar Hydref 31; a**

**(ii) chymeradwyo'r amserlen arfaethedig ar gyfer cynhyrchu Cynllun Gwella a Lleihau Risg cyfunol yr Awdurdod ar gyfer 2012-13.**

10 CYNNWYS AC YMGYNGHORIAD Y CYNLLUN GWELLA A LLEIHAU RISG CYFUNOL 2012-13

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth Aelodau am y cynigion ar gyfer cynnwys y Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2012-13 a threfniadau ymgynghori eleni.

10.2 Yn unol gyda Mesurau Llywodraeth Leol, disgwylir i'r ATA osod amcanion gwella, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn flynyddol, fydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Cyfunol i'w gyhoeddi ar 31 Hydref. Fodd bynnag, nid oes rhad i'r amcanion newid bob blwyddyn ac nid oes rhaid eu cyflwyno o fewn blwyddyn.

10.3 Roedd Cynllun Gwella a Lleihau Risg yr Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010 yn cynnwys saith o amcanion gwella oedd wedi golygu 21 o bwyntiau gweithredu gyda llawer ohonynt yn cymryd mwy na blwyddyn i'w cyflawni. Cytunodd Aelodau y dylai'r Awdurdod gario'r un saith amcan ymlaen am flwyddyn arall i 2011-12, ond gyda chynlluniau gweithredu wedi eu diweddaru.

10.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo cynnwys arfaethedig y Cynllun Lleihau Gwella a Lleihau Risg drafft 2012-13; a**

**(ii) chefnogi'r cynnig i ymgymryd â phroses ymgynghori gyfyngedig.**

11 AELODAETH O'R GWEITHGOR LLEIHAU RISG

11.1 Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau enwebu aelodaeth y Gweithgor Lleihau Risg a chadarnhau ei bwrpas.

11.2 Roedd yr Aelodau'n cydnabod nad oedd angen i Weithgor y Cynllun Lleihau Risg ymgynnull er mwyn trafod amcanion ymgynghoriad y Cynllun Lleihau Risg. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i ostwng y gyllideb o £1miliwn arall, cytunwyd i ymgynnull Gweithgor i edrych ar y gwahanol opsiynau oedd wedi eu nodi yn y Llyfryn Opsiynau i Ostwng y Gyllideb. Byddai'r Aelodau'n cael y cyfle i drafod goblygiadau llawn yr effeithiau ariannol a risgiau'r gwahanol opsiynau, fydd wedyn yn helpu'r Panel Gweithredol i wneud penderfyniad yn ystod y broses osod cyllideb yn yr hydref. Hefyd, bydd y Gweithgor yn edrych ar ffyrdd o wneud y gorau o'r buddion o rannu data fel yr awgrymwyd gan yr Is-gadeirydd yn gynharach yn y cyfarfod.

11.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cadarnhau rôl y Gweithgor newydd fel y gosodwyd ym mharagraff 11.2 uchod;**

**(ii) fod aelodaeth o'r Gweithgor yn cynnwys dau Aelod o bob awdurdod cyfansoddol; a**

**(iii) bod Aelodau'n hysbysu'r Swyddog cyswllt Aelodau o ba Aelodau fydd yn cynrychioli eu hawdurdod erbyn 16 Mai.**

12 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gynghori Aelodau am yr ymarfer hunanasesiad oedd yn cael ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar i ba raddau mae'r Awdurdod yn cydymffurfio gyda'i goed ei hunan yn flynyddol.

12.2 Roedd y Clerc a'r Dirprwy Brif Swyddog T ân wedi adolygu'r gwaith wnaed ar yr ymarfer hunan asesu hyd heddiw ac wedi gwneud rhai argymhellion pellach. Pan fydd wedi cael ei gwblhau, bydd yr holl ddarganfyddiadau yn cael eu casglu er mwyn cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fydd yn cael ei gyflwyno i Swyddog Archwilio Cymru a'r Tîm Archwilio Mewnol.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

13 YMGYNGHORIAD STRATEGAETH CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB CYMREIG 2011-16

13.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau am:

(i) y trefniadau ymgynghori ar gyfer Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gwasanaeth Tân ac Achub 2011-13; a'r

(ii) dull awgrymedig am ddrafftio ymateb yr Awdurdodau Tân i'r ymgynghoriad.

13.2 Roedd y strategaeth ddrafft wedi cael ei datblygu ar y cyd gyda LICC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, CLILC a swyddogion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaethau Tân ac Achub. Roedd nifer o sefydliadau gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Undeb y Brigadau Tân, Stonewall Cymru, Rhwydweithio Merched yn y Gwasanaeth Tân a Chymdeithas y Diffoddwyr Tân Anabl wedi cymryd rhan yng nghynhyrchiad y strategaeth.

13.3 Roedd y strategaeth wedi cael ei dyfeisio i gwrdd â'r gofynion cyfreithiol osodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus 2011. Nodwyd fod y cyfrifoldeb am gyflwyno yn erbyn y Strategaeth yn gorwedd ar dair lefel - cenedlaethol, lleol ac unigol.

13.4 Cyfeiriwyd at yr iaith Gymraeg yn y rhaglith i'r strategaeth ond nid yn y prif adroddiad. Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru record dda o hyrwyddo'r iaith a bydd rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y manteision o hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn y strategaeth.

13.5 Teimlai'r Cynghorydd T Roberts y dylai'r cyfnod ymgynghori fod yn hirach a gofynnodd fod hyn yn cael ei gynnwys yn yr ymateb ymgynghori.

13.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**

**(ii) cymeradwyo rhoi mandad i'r Prif Swyddog Tân, ar y cyd gyda'r Cadeirydd, i ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod gyda golwg ar ddyddiad cau 20fed o Fai 2011..**

14 BWRDD RHAGLEN EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA

14.1 Eglurodd y Clerc y byddai'n rhoi diweddariadau rheolaidd am y Bwrdd Effeithiolrwydd a Gwella yn y cyfarfodydd. Sefydlwyd y Bwrdd yn genedlaethol i drafod cydweithio. Mae Gogledd Cymru wedi sefydlu Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod, yr Heddlu, Iechyd a Tan ac Achub. Mae ardaloedd posibl am gydweithio yn y dyfodol yn cynnwys fflyd a chaffael.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

15 UNO SEREMONI GWOBRWYO GWASANAETH HIR A GWOBRWYO'R GYMUNED

15.1 Gofynnwyd i Aelodau ystyried cyfuno'r seremonïau Gwasanaeth Hir a Gwobrwyo'r Gymuned yn 2011.

15.2 Oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r angen i wneud arbedion arwyddocaol ym mhob ardal, byddai cyfuno'r ddau ddigwyddiad yn galluogi'r Awdurdod i gydnabod cyflawniadau staff ac ystyried costau hefyd.

15.3 Roedd y costau wedi cael eu gosod yn yr adroddiad ac awgrymwyd i'r digwyddiad cyfunol ddigwydd yn yr Orsaf Dân Gymunedol yn y Rhyl.

15.4 Roedd Aelodau'n cytuno fod staff gweithredol ac anweithredol oedd wedi rhoi 20 mlynedd o wasanaeth yn haeddu gwobr yn ogystal â chydnabod effaith eithriadol a chyfraniad tîm nodedig o fewn y Gwasanaeth. Nododd yr Is-gadeirydd y byddai hyn yn ffordd ardderchog o ddangos gwerthfawrogiad yr Awdurdod i'r Gwasanaeth.

15.5 **PENDERFYNWYD cefnogi uno seremonïau Gwobrau Gwasanaeth Hir a Gwobrwyo'r Gymuned a'i fod yn cael ei gynnal yng Ngorsaf Dân Cymunedol y Rhyl ym mis Medi 2011.**